YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1898. [RHIF 130.

YR ANRHYDEDDUS D. W. JONES, "GRAND OLD MAN OF DELAWARE'S COUNTY," N.A.

YR oedd y D. W. Jones uchod yn enedigol o blwyf Llandysul, Ceredigion, ac er iddo adael ei wlad enedigol yn gymharol ieuanc, fel nad oes ond ychydig heddyw ar dir y byw yr ochr yma i'r Môr Werydd yn cofio dim am dano, oherwydd yr oedd y mwyafrif o drigolion presenol yr ardal lle y treuliodd ei fywyd boreuol heb eu geni pan yr ymfudodd i'r Amerig; eto, y mae yma ar lanau y Clettwr dri o frodyr iddo, iau nag ef, yn aros heb eu symud, a llawer iawn o berthynasau yn wasgaredig yma a thraw y byddai yn ddymunol ganddynt ddarllen bywgraffiad byr ohono ar dudalenau yr YMOFYNYDD. Felly, y mae ysgrifenydd y llinellau canlynol yn ymgymeryd â'r gorchwyl o rwystro lleni ebargofiant i gau yn gyfangwbl ar fywyd anturiaethus a llwyddianus y Cymro galluog hwn. I'm cynorthwyo yn nghyflawniad y gwaith, y mae o'm blaen y *Manchester Press*, Delaware County, Iowa, Mawrth 31ain, 1898, ac ynddo gyflawnder o'r defnyddiau angenrheidiol, y rhai ni ellid eu cael yn y wlad hon.

Ganed D. W. Jones Medi 27ain, 1821, a mab ydoedd i William a Rachel Jones, Gelliaur, Llandysul, y rhai a fuont feirw, y blaenaf Mehefin 10fed, 1861, yn 66 oed, a'r olaf Mawrth 23ain, 1873, yn 75 oed. Claddwyd y ddau yn Mhantdefaid. Yr oedd D. W. Jones yn un o ddeg o blant, o ba rai nid oes ond tri yn fyw, sef tri brawd, fel y crybwyllwyd o'r blaen—Mri. James Jones, Gelligron; Evan Jones, Melin Rhydowen; a William Jones, yr hwn sydd yn byw yn ei gartref genedigol. Nid gormod yw dyweyd fod teulu Gelliaur a'r tylwyth erioed yn eu gwahanol gysylltiadau yn bobl adnabyddus a pharchus, amryw ohonynt yn eithriadol alluog a medrus fel crefftwyr a pheirianwyr, ac hefyd fel cerddorion, nid yn gymaint ar gyfrif manteision dygiad

i fyny, eithr ar gyfrif yr athrylith â pha un y cynysgaeddwyd hwynt gan natur ei hun. Yr oedd gwrthrych y cofiant hwn yn un engraifft allan o lawer.

Cafodd D. W. Jones ei ddwyn i fyny yn Gelliaur yn y weithfa wlan *(woollen factory)* i ddilyn yr un alwedigaeth a'i dad, yr hwn oedd hefyd yn ben peirianydd yn ei amser; a bu hyn yn foddion, rhanol o leiaf, i ddeffroi i weithrediad yr un anianduedd yn y mab. Ar y dydd y cyrhaeddodd ei un-ar-hugain oed, efe a briodod un o'r gymydogaeth o'r enw Margaret, merch y meddyg Benjamin Davis, yr hwn oedd fab i'r hyglod weinidog, bardd, ac ysgolhaig, David Davis, Castellhywel. Yn y gwanwyn canlynol (1843), ymfudasant i'r Amerig mewn llong o'r enw *Caledonia*, a glaniasant yn New York ar ol mordaith o dair wythnos. Wedi cael eu *luggage* allan o'r llong, a thalu am eu cludiad drosodd, nid oedd ganddynt ond rhyw bymtheg punt o arian i ddechreu bywiolaethu yn ngwlad eu mabwysiad. Aethant yn ddioed i Philadelphia; ac wedi cael llety cysurus i'w briod, aeth Mr. Jones i edrych am waith, a llwyddodd i'w gael, wrth y mis, mewn fferm gyfagos. Wedi aros oddeutu blwyddyn yn a cherllaw Philadelphia, yn mis Ebrill, 1844, symudodd ef a'i wraig i Newton Falls, yn Ohio. Prynodd Mr. Jones haner can' erw o dir â'i enillion y flwyddyn flaenorol, a chartrefodd ef a'i briod yn y lle hwn am oddeutu deng mlynedd; efe weithiau yn gweithio ar y fferm, pryd arall yn y gweithfeydd gwlan. Yr oedd Mr. Jones yn clywed yn fynych am y wlad eang a didriniaeth tuhwnt i afon Mississippi; a chan fod ei deulu yn amlhau, ac yntau yn awyddus i wneuthur ei ran tuag atynt, efe a aeth drosodd i Dalaeth Iowa, a phrynodd dri chan' erw o dir y Llywodraeth yn swydd Delaware.

Yn fuan ar ol hyny, efe a ddychwelodd i Ohio, ac a ddechreuodd weithio yr ail waith yn y gweithfeydd gwlan yn Newton Falls. Yn y flwyddyn 1857, daeth ef a'i deulu i fyw yn gyfangwbl yn swydd Delaware; gwnaethant eu cartref ryw ddwy filldir i'r gogledd o Manchester. Ymroddodd Mr. Jones ar unwaith i amaethyddiaeth, a dilynodd y swydd am saith neu wyth mlynedd. Yn y cyfamser, prynodd ddarn arall o dir ger llaw y pryniad cyntaf yn mesur dau can' erw, ac yn ymylu ar Honey Creek. Ar ysmotyn o'r tir hwn, yn ngwanwyn 1865, dechreuodd adeiladu y weithfa wlan a elwir y Manchester Woollen Mill, yr hon oedd y gyntaf a'r unig anturiaeth o'r fath yn swydd Delaware. Yn haf yr un flwyddyn, gosodwyd yr adeilad i fyny gyda'r peirianau a'r offerynau angenrheidiol yn gyflawn, yn mesur, mewn troedfeddi, 40 wrth 30, ac yn dair llofft o uchder. Yn y flwyddyn 1867, chwanegodd Mr. Jones at hŷd y weithfa hon ddeg-ar-hugain o droedfeddi, a gosododd i fyny y peirianau angenrheidiol fel yr oedd y fasnach yn cynyddu. Yn Hydref, 1876, adeiladodd weithfa neu ffactri arall haner milldir islaw y gyntaf, yn mesur mewn troedfeddi 48 wrth 80, yn dair llofft a haner o uchder, heb gyfrif y barth *(ground floor)*. Yn y ddwy weithfa hyn, yr oedd

pob math o frethynau yn cael eu troi allan—*cassimeres*, tri math o *beaver* at wneyd huganau *(top coats)*, *tricots*, *doeskins*, *jeans*, plancedi, ac edafedd o amryw fathau. Chwiliais fy holl eiriadur-on am enwau Cymraeg ar y nwyddau uchod, ond gydag ychydig lwyddiant. Gwnaed y darllenydd gynyg eto. Y mae y gweithfeydd hyn yn brawf o amynedd, diwydrwydd di-ildio, a gwybodaeth ryfeddol y cyfaill a'r Cymro ymadawedig mewn peirianwaith a gallofyddiaeth ; a dywedir na chafodd un darn o'r holl waith ei osod yn ei le heb fod o dan ei arolygiad uniongyrchol ef.

Heblaw mai efe oedd perchen y gweithfeydd mawrion uchod, gellir ei gyfrif yn un o drefedigion boreuaf swydd Delaware, ac felly nid dyeithr iddo oedd y peryglon a'r caledi a'u goddiweddent ar rai achlysuron. Rhaid oedd brwydro yn erbyn elfenau ymosodol natur er dyogelu eu bywydau a'u meddianau rhag dinystr. Er engraifft, bu Mr. Jones unwaith yn mron colli ei fywyd ryw noson yn Mehefin, 1865, pan y galwyd arno i fyned gyda phob brys i achub ei geffylau rhag boddi yn y llifeiriant bythgofiadwy hwnw a ysgubodd ymaith y Quaker Mills gan gymaint nerth ei ddyfroedd. Llwyddodd Mr. Jones i symud ei geffylau i fan dyogel ; a phan yn dychwelyd i'w lety, cafodd fod y llif wedi chwyddo gymaint, fel nad oedd modd iddo ei gyrhaedd heb nofio, hyd yn nod os gallai lwyddo felly. Anturiodd wneuthur hyny, ond cariwyd ef ymaith gan y rhyferthwy ; ac o fan i fan yn nghanol y dyfroedd y bu mewn ymdrech galed am ei fywyd o ganol nos hyd dri o'r gloch yn y boreu, pan y llwyddodd i gyrhaedd tŷ un o'r enw Mr. De Long, lle y cafodd bob ymgeledd, a dillad am dano i fyned tua thref. Nid oedd yr anhawsderau, a'r peryglon, a'r siomedigaethau yr oedd Mr. Jones wedi bod yn brofiadol ohonynt yn eithriadol yn ei achos ef, eithr yn gyffredin o ryw fath neu gilydd i ereill o'r trefedigion cyntaf yn hanes y wlad ; ond yn debyg na bu un ohonynt mor agos i golli ei fywyd ag y bu ef.

Iawn cofnodi y trefniant neu y gymdeithas o'r hon yr oedd ef yn un o'r sylfaenwyr, os nid y prif un, a'r hon oedd yn cael ei galw ar ei enw, sef "Jones Mill Grange." Sefydlwyd hi yn 1873, ac efe fu ei llywydd am lawer o flynyddau. Bu hefyd yn llywydd yr *Iowa State Grange* hyd o fewn ychydig amser i'w farwolaeth, yn nghydag yn aelod o'r *National Grange*. Mor bell ag wyf yn deall, amcan y gymdeithas hon yw amddiffyn buddianau amaethyddiaeth drwy symud ymaith y rhwystrau a'r beichiau a osodir ar ffordd y ffermwŷr gan gwmniau y rheilffyrdd a chwmniau ereill, a thrwy geisio cael gwared o'r gwŷr canol *(middle men)*, y rhai a dybir sydd yn ormod eu hawydd i gael i'w llogellau eu hunain gyfran anghyfiawn o enillion gonest y ddau ddosbarth o ddynion a elwir y *producers* a'r *consumers*.

Yr oedd Mr. Jones yn dad i wyth o blant, o ba rai nid oes ond tri yn fyw, sef Eliza, Josiah, a J. Walter. Mae'r ddau flaenaf yn briod. Jo, fel y gelwir ef, yw ysgrifenydd a blaenor y *firm*, D. W. Jones a'i Gwmni, ac yn dra adnabyddus yn ei drafnidiaeth

i'r cyhoedd yn gyffredin yn Delaware a'r siroedd amgylchynol. Mae J. Walter, hefyd, y brawd ieuengaf, yn aelod o'r *firm*.

Bu Mr. D. W. Jones farw Mawrth 24ain, 1898. Dywed y *Manchester Press*, gan gyfeirio at yr amgylchiad: "The kindly-hearted old man passed away;" ac ychwanega iddo ddyoddef cystudd caled am lawer o fisoedd cyn ei farwolaeth, ond iddo ei ddyoddef yn ddewr ac amyneddgar, a chyda'r addfwynder a'r tawelwch nodweddiadal ohono drwy ei oes faith. Cyfarfu angeu yn ddigryn, mewn ymddiried disigl yn ngwirionedd a chyfiawnder ei Dduw a'i Dad. Mae cymhares ei fywyd llafurus ac anturiaethus eto ar ol, wedi cydgario yr iau yn ffyddlon drwy yr holl flynyddau, ac nid oes ganddi mwy ond adolygu y gyfeillach mewn adgof hiraethlon, gan ddysgwyl yr amser i groesi yr adwy i gael adnewyddiad ohoni yn y byd sydd tu arall i hwn. Claddwyd Mr. Jones prydnawn y Sul ar ol ei farwolaeth; ac er garwed yr hin, cafodd gladdedigaeth deilwng o'i gymeriad a'i safle gymdeithasol fel yr "Anrhydeddus D. W. Jones."

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth angladdol gan y Parch. H. W. Tuttle, yr Anrhydeddus P. W. Tirrill, y Barnwr E. P. Seeds, a'r Anrhydeddus W. H. Norris.

Pe gosoder i mewn yn yr ysgrif hon yr oll a ddywedwyd gan y boneddigion uchod, byddai ei meithder, yr wyf yn ofni, yn rhwystr iddi gael ymddangos yn yr YMOFYNYDD. Yr oeddynt yn unfrydol yn eu teyrnged o barch i goffadwriaeth yr ymadawedig henafgwr; edmygent wahanol linellau ei gymeriad. Siaradent yn uchel am dano fel un o'r trefedigion boreuol, yr hwn, wedi ei ddyfodiad i Delaware, a gymerodd ran flaenllaw yn ei dadblygiad, nes y mae heddyw, fel y dywedent, y "rhandir oreu, yn y dalaeth oreu, ac yn y wlad oreu y gwyddis am dani." Yr oedd yn edmygydd calonog o Werin-lywodraeth, ac yr oedd ei hegwyddorion wedi gwreiddio yn ddwfn yn ei galon. Dywedent fod ymddiried y cyhoedd ynddo gymaint fel dyn gonest a chyfiawn, fel yr oedd yn aml yn cael ei ddewis yn gynghorwr mewn achosion o bwys. Nid oedd yn rhagfarnllyd a chul yn ei olygiadau, yn wleidyddol, cymdeithasol, a chrefyddol, ond meddai ar y gwrolder i'w hamddiffyn pan wneid ymosodiad arnynt. Yr oedd yn aml yn cael ei alw i lanw lleoedd o bwys ac anrhydedd, ond ciliai o'r neilldu i roi lle i rai mwy eu hawydd am y prif gadeiriau nag ef, ysgatfydd yn llai galluog a theilwng. Oedd dyner a charedig fel priod a thad, ac fel cymydog yr oedd o galon hynaws ac agored tuag at bob dyn. Yr oedd yn gynllun o gymeriad cyffredinol y dylai pawb ei efelychu. Tebyg i hynyna oedd y farn gyffredin am y cyfaill ymadawedig yn ol yr hanes sydd o'm blaen.

O.Y.—Yr oedd Mr. D. W. Jones yn *Freemason* er y flwyddyn 1868, ac yn y flwyddyn 1878 yr oedd wedi cael ei anrhydeddu â holl urddau y "York Rite." Mae a fyno hyn, efallai, â'r teitl, "Anrhydeddus" sydd o flaen ei enw yn y *Manchester Press*.

Awst 29ain, 1898. UN SYDD YN EI GOFIO.

MARWNAD.

Er cof am Mrs. Jones, anwyl briod y Parch. Rees Cribin Jones, Llanbedr, Ceredigion.

MAE hiraeth dwys fy nghalon wan am osod tyner flod'yn
Uwchben ein hanwyl chwaer sydd tan briddellau oer y dyffryn ;
Anheilwng yw'm crynedig ddrych I blanu'm rhosyn egwan,
Uwchben cymeriad un mor wych o ragoriaethau cyfan.

Adgofio wnawn ein chwaer tan bwys o degwch ie'nctyd eres,
A'i threm ddeniadol gan mor lwys enynai serch ein mynwes ;
A blodau rhinwedd boreu oes i hon fu'n *oes* gymdeithion ;
Er profi llawer chwerw loes, ni wywodd tlysni'i chalon.

Ni wyddai'n gwrthrych drystiol gri er ceisio gwâg ogonedd,
Yn ddirgel syrthia'i rhoddion hi ar fyrddau'r diymgeledd ;
'Roedd codi'r isel, lleddfu clwy' rhyw frawd neu chwaer anhapus,
I'w chalon glaer yn dâl can' mwy na molawd byd twyllodrus.

Pa ryfedd fod ei hoes mor bur ?—mor syth ei gwastad gamrau,
Tra byth mewn iechyd neu mewn cur, ei nôd oedd Tad rhinweddau ;
Lle bynag nodai gwefus Nef ddyledswydd i'w chyflawni,
Hi a'i gwynebai â ffydd gref heb geisio'i gŵyr ysgogi.

Cym'doges oedd â pharod law i wasgar ei chardodau,
Agorai'i llogell yn ddifraw er cyfoethogi'n heisiau ;
Ei llygad treiddgar welai friw yn isel fron yr estron,
Ac olew cydymdeimlad byw ddiferai ar ei loesion.

A dim erioed un acen sur gawd tros ei gwefus dyner,
Iach lafar ysbryd mwynaidd, pur, gaem ganddi mewn cyfyngder ;
Ond mor ddidrwst disgynai'i nawdd a'r gwlith mewn anial fröydd,
Fel heb lwyr graffu nid yn hawdd caed trem ar law'r cyfranydd.

Bu heulwen mwyniant gyrfa oes ein chwaer dan aml gymylau,
Ond ha ! mor brydferth cariai'i chroes heb bechu'n ngwyll profiadau ;
Er rhaid myn'd drosodd un 'nol un o feddau'i phlant addawol,
Ni chloffodd hi, forwynig gun, ar lwybrau ffydd anfarwol.

Fel mae'r naturiol blentyn llon yn mreichiau'i dad yn teimlo
Pob dyogelwch yn ei fron, 'does waeth pa 'storm fo'n rhuo,
Y teimlai hithau ei "Thad byw" â'i fraich o'i chylch i'w chynal,
Fel medrai ganu, er yn nghlyw croeswyntoedd llym yr anial.

Wych, fendigedig blentyn ffydd sy'n gwel'd yr Anweledig
Yn symud hyd Ei lwybrau cudd o gariad mawr chwyddedig
At ddynolryw—i ti yn wir, "Duw byw" yw Duw y duwiau;
"Duw'r Tad," a dim ond cariad clir yn lloni Ei amrantau.

Gwêl hwn ar dduaf gwmwl erch rudd hael Ei Dad yn gwenu;
Yn llais y daran acen serch glyw ef yn clir barablu.
'Does dòn ar fôr ei yrfa fèr all godi'n ddigon uchel
I guddio haul ei obaith, er ar brydiau'i gwch fydd isel.

Fy anwyl frawd, collasoch chwi yn angeu briod ffyddlon,
Cydymaith wir trwy'r daith oedd hi, heb ragrith yn ei chalon:
Nid pwysau i'ch hysgwyddau fu i wneyd rhyw oes yn drymach,
Ond pan d'a'i baich ei hysgwydd gu a'i gwnai yn ddau ysgafnach.

Ac O! na fedrem uwch oer fedd anwyliaid pur ein dwyfron,
I foli Duw am gymaint hedd a gawsom trwy'n rhai tirion;
A gwel'd y bedd fel gwely gwyn a daenodd Ef Ei Hunan,
Nes toro'r wawr tu draw i'r glyn ar anfarwoldeb llydan.

A'i hunig blentyn (heddyw'n fyw), ti gollaist fam anwylgu;
Os chwerw'th brofiad—chwerw yw, mae lle fod gwaeth er hyny;
Os yw ei chorff mewn pridd yn awr, mae'n fyw i ti ei gwersi;
O! canlyn hwynt, heb wyro awr, a'r byd fydd well o'th eni.

Ffarwel, fy chwaer, eich hegwan lwch mewn hedd fo'n tawel huno,
'Nol hir gystuddiau drwch ar drwch, mae'n felus cael gorphwyso;
Ffarwel am enyd—dyna i gyd, 'ry'm ni ar uno'ch tyrfa;
Os byddwn barod, gwyn ein byd fel oeddych chwi fyn'd yna.

Blaenafon. IOAN DDEWR.

"Blodeued achos crefydd, gwir grefydd yn y fro,
Ffyddlondeb taer y tadau, na lithred fyth o'n co';
Ti roddaist yma'th wyneb adegau, do, heb ri',
Lle bellach rhaid addoli, O Dad, bydd gyda ni!"

Awst 12*fed*, 1877.

[Rhymer's Glen, Abbotsford. Sunday evening in the dusk in a state of great bodily suffering: racking pain in the head.]—*Y Parch. W. Thomas, M.A.*

NEMESIS.

" Ond er rowndio'r byd i'r India,
Mae cosb er rofyn o hir ddilyn yn siwr o ddala."—*D. D.*

YN chwedloniaeth y Groegiaid adroddir am Prometheus iddo unwaith wneuthur dyn, ac iddo wrth wneuthur hyny ddefnyddio cyfran o bob creadur y gwyddai am dano; fel hyn y cyfrifid am y gwahanol nwydau a serchiadau sydd mewn dyn. Daw Darwin trwy ei ddamcaniaeth i gyffyrddiad âg esboniad tra chyffelyb. Mae yn mhob dyn gyfran o'r llew, y cadnaw, yr epa, &c., a daethant i'w ran drwy etifeddiaeth yn ystod tymhor ei ddadblygiad drwy ddirif ganrifoedd cenedlaethau y gorphenol. Gwir fod rhai dynion wedi gwisgo ymaith yr olion ohonynt fwy na'u gilydd, neu yn hytrach wedi eu dwyn dan lywodraeth rheswm a chydwybod. Nid oedd dyn yn ddyn, ni ddaeth yn greadur cyfrifol, nes meddianu rheswm a chydwybod; ac hyd y dydd hwn y mae yn ei allu, drwy ryddewyllysiad, i ymollwng dan draed yr anifail sydd ynddo, a sarnu ar fawredd urddasol ei ddynoliaeth.

Trwy frwydro parhaus a chyndyn y mae dynoliaeth wedi esgyn grisiau cynydd a gwareiddiad. Fe fyn y llew a'r cadnaw a'r epa yn achlysurol ddangos eu bod o fewn clyw. A hyn sydd yn peri fod y dyn weithiau yn teimlo ei fod yn gynrychiolydd dwy egwyddor wrthwynebol. Yr oedd hyd yn nod Paul yn byw yn swn y rhyfel hwn, fel y gwelir oddiwrth y seithfed o'r Rhufeiniaid. Os yw natur y llew yn y dyn, wedi'r cwbl, nid y llew yw y dyn, nid y cadnaw, nid yr epa yw y dyn. Perthyn dyn i'r anifail, ond ei berthynas â'r natur uwch sydd yn rhoddi iddo y teitl o fod yn ddyn. Pe'n epa'n unig, ni fyddai yn bechod iddo ddilyn gogwyddiadau ei natur epäaidd; ond gan fod iddo natur uwch, fe ddywed cydwybod yn barhaus wrtho ei bod yn bechod iddo roddi ffordd i glustweiniadau ei natur îs; ei fod wrth wneyd hyny yn dwyn gwarth a gwaradwydd ar ei ddynoliaeth. Fe ddywed y Pwlpud weithiau fod gwneyd drwg yn naturiol i ddyn; gan awgrymu wrth hyny mai natur yr anifail yw natur dyn. Oni ymddengys y fath syniad yn gabledd ar ddyn, ac ar Awdwr natur dyn?

Dichon pechu fod yn felus iawn i'r llew, a'r cadnaw, a'r epa yn y dyn, a dichon i ddyn yn fynych anghofio llais gorchymynol dyledswydd, a dilyn llwybr ei feluschwant mewn ffordd anghyfreithlawn; ond ni fydd yn ddiesgus nac yn ddigerydd wrth wneuthur hyny—"Gwybydd y geilw Duw di i'r farn am hyn oll." Ni ellir tori hyd yn nod deddfau natur a dianc yn ddigosb. Mae dysgleirdeb y ganwyll yn swynol ac yn brydferth iawn yn ngolwg

y baban ; ond fe ddyoddefa os ymeifl ynddi. Trosedd yw hyn ar ran y plentyn. Mae yn drosedd, ond nid yn bechod. Nid yw trosedd mewn anwybodaeth yn cario euogrwydd gydag ef, ac y mae euogrwydd yn hanfodol i bechod. Y mae pechod, wrth gwrs, yn anghyfraith, ond anghyfraith ar dir moesoldeb yw. Nid yw pob trosedd, nid yw pob anghyfraith, yn bechod; rhaid fod yr elfen wirfoddol yn bresenol cyn byddo yn bechod.

" Fel gwna'r pryf, wrth chwareu â'r goleu,
Yn y diwedd gwrdd â'i angeu ;
Felly'r hwn sy'n chware â phechod,
Bob yn 'chydig ddaw i drallod."

" Gwybyddwch y goddiwedda eich pechod chwi." " Be sure your sin will find you out."

" Araf mala melin Duw,
Ond un sicir, sicir yw."

Y mae rhai pechodau, fel yr asp, yn wastad yn cario eu colyn gyda hwy ; y gosb a oedir sydd yn peri difrawder a rhyfyg. Am nad yw Duw yn talu ei gyflog i ddyn bob nos Sadwrn, y mae dyn yn myned i gredu nad oes dim cyfrif na chyflog i fod. Y mae uffern sydd heb dân, yn ogystal ag uffern â thân ynddi ; ac o'r ddwy, y gyntaf sydd fwyaf peryglus. Y mae'r dyn sydd yn myned i gysgu ar ben yr odyn galch yn colli ei fywyd, trwy anadlu y ddamp fud, y *carbonic acid gas* sydd yno, heb losgi dim. Pe buasai'r tân yn gwneyd ei waith, tebyg y diangasai.

Nid yw Nemesis byth yn gollwng ei gafael ar yr hwn sydd yn rhodio llwybr pechod. Yn gynar neu yn ddiweddar y mae yn sicr o ddwyn ei hysglyfaeth i dir, yn fwy sicr nag yw'r pysgotwr o'r samwn y mae wedi fachu. Nid oes un trosedd gyflawnir nad yw yn gadael megys nôd Cain ar y troseddwr. Er iddo ddianc wyth neu ddeg neu ugain mlynedd, er iddo ryfygu ac ymffrostio yn ei ddyogelwch, gellir bod yn sicr y delir ef yn y diwedd. Gwir y gellir serio cydwybod fwy neu lai, a dwyn dyn i uffern lle nad oes tân ; y mae dydd cyfrif er hyny yn sicr o dd'od, a dydd deffroad cydwybod i'w iawn safle, Nid oes neb all newid natur pethau. Meddai yr enwog Edmund Burke, " Neither your fond wishes nor mine will change the nature of things." Natur tân yw llosgi, natur dwfr yw boddi, a natur pechod yw dinystrio. Er ucheled y cyfyd pechod ei ben weithiau, y mae ei seiliau yn y llaid, a dydd ei ddarostyngiad yn ymyl wrth y drws. Nid am ddim y rhoddes y Tad Goreu y fath allu yn nwylaw Nemesis.

Mae braidd yn hynod nad yw dyn ddim eto yn cofio bob amser fod gwahaniaeth rhwng y *Meum* a'r *Tuum*, sef rhwng y peth a berthyn i mi a'r peth a berthyn i ti. Y Crewr Ei Hun osododd yn natur pethau fod gwahaniaeth rhwng da a drwg, rhwng yr iawn a'r aniawn, rhwng rhinwedd a phechod. Ynfytyn

halogedig yw yr hwn sydd â'i lygaid yn agored yn herio natur pethau, ac yn dywedyd fod dau a dau yn gwneuthur pump, ac nad oes dim gwahaniaeth rhwng da a drwg. Os dilyn yr egwyddor hon a wnaiff, er iddo ymrithio yr angel fe'i delir—gwneir, fe'i delir, a phan ei delir, ni fydd iddo ddianc y gosb sydd yn ddyledus iddo. Diolch am farnwyr gonest i gario allan ddeddfau ein gwlad. Heb hyny, fe gollid pob ymddiried, ac elai cymdeithas yn fuan ar oriwaered, ac i gyfeiriad y cyflwr anwaraidd. Diolch i Dduw fod deddf "Trecha treisied, gwana gweidded," yn raddol yn myned i'r wàl, a deddf cyfiawnder a chwareu teg yn enill mwy o gydnabyddiaeth. Nid yw i ni lawenychu oherwydd anffawd neb; ond bydd rhai enwau sydd wedi bod yn dra amlwg o flaen y cyhoedd yn y gorphenol diweddar yn cario ystyr newydd o hyn allan; ac er llawer o amheuaeth un amser, fe ddeuir i gydnabod eto fel ffaith, mai "Cyfiawnder a barn yw trigfa Ei orseddfainc Ef." Q. Q.

O FARW I FYW.

PAN orwedda'r dail yn isel dan law Hydref wrth ein traed,
Myned wnaf yn swn eu ffarwel, chwilio'r hynt a'r helynt gaed;
Drwy y bwlch äf hyd y dolydd, edrych arnynt ar y llawr,
Gwylio'u cwymp oddiar y coedydd, gwrando ar bwnc eu pregeth fawr:—
Wrth eu gweled llefain wnaf, "Pa ryw obaith genych gaf!"

Pan orwedda'r dail yn isel, pan y sangwn hwy'n y pridd,
Clyw'n hwy'n siarad yn yr awel, a rhyw awgrym melus fydd:
'Gwanwyn gawn ar ol yr Hydref, a daw dail o'r llwch a'r llaid;"
Wylo 'rwyf wrth wel'd eu mangre, wylo, am mai wylo raid;
Wylo ac ymholi'n brudd am ryw gymhorth i fy ffydd.

'Gwanwyn ddaw â dail newyddion," dyna'r llef sydd uwch fy mhen,
Llef y cangau uwch eu meirwon, llef o'r ochr hwnt i'r llen:
'Gwanwyn ddaw," yw llef y gwyntoedd, llef yr afon ar ei thaith;
'Marw i fyw," yw'r llef ga miloedd ynddo nerth i wneyd eu gwaith;
Nes troi dail amheuaeth sur yn ffydd nerthol gobaith pur!

JULIA H. MAY,
Christian Life, Oct. 10th, 1896.)

T. C. U.
(Hydref 11eg, 1896.)

NODIADAU O DDYDDLYFR "SYLWEDYDD."

YR wyf yn fynych yn clywed y gweithiwr yn achwyn ei fod yn gorfod talu trethi; ac yr wyf yn ffaelu peidio meddwl nad yw y Llywodraeth ddim yn gorfodi arno i drethu ei hunan trwy gymeryd diodydd cadarn, a thybaco, a snuff; ac mae'r dreth ddaw oddiwrth y rhai hyny yn fwy na holl drethi'r Llywodraeth ddwywaith drosodd.

"Meddwl ddwywaith cyn llefaru unwaith," sydd hen ddiareb werthfawr; ac ar ol gwneuthur hyny, yr wyf finau'n credu fod llawer yn ffol iawn yn llefaru ddwywaith cyn meddwl unwaith.

Yr wyf yn adwaen hen fab gweddw sydd yn caru adrodd holl ofidiau a thrallodau pobl briod. Mae'r ychydig wybodaeth sydd genyf fi am y natur ddynol yn rhoi ar ddeall i mi nad efe yw y dyn mwyaf dedwydd ar y ddaear.

Yr wyf wedi clywed rhai gwragedd yn achwyn fod eu gŵyr yn esgeuluso cartref. Gwnaiff llonaid llwy o fêl gadw mwy o wenyn yn y llestr na deg o winegr.

Mor fynych y clywn ni rieni yn dywedyd, "Mae fy mhlant mor afreolus!" Y mae plant yn debyg iawn i goed ieuainc—yn dibynu llawer ar y driniaeth a gânt.

Mae llawer o ddynion yn achwyn fod ganddynt ormod o waith. Pe'r ymgadwent gyda'u busnes eu hunain yn unig, gwnaent lawer i esmwythâu eu beichiau.

Da y dywed Sidney Smith am "Gysgodau Gofid;" yr ydym yn rhy barod i redeg i'r cysgod hwnw: "Pa'm y caniatewch i ddedwyddwch heddyw gael ei ddinystrio gan gysgod trueni pell—trueni, yn bosibl, na ddaw byth, ac un, y mae yn bosibl, na fyddwn ni byw i'w weled. Y mae i bob gofid sylweddol ugain o gysgodau, a'r rhan fwyaf ohonynt yn gysgodau o'ch gwneuthuriad eich hunan."

Nid oes neb a ddichon wneuthur tŷ Hympi-Dympi yn gyfan ar ol unwaith friwio'r gwelydd, fel y dywed cân hwian y plant:—

"Not all the King's horses,
Nor all the King's men," &c.

Yr un peth am gymeriad dyn; ysiger ef unwaith, ni chyfanir ef byth mwy. Diniweidrwydd, os collir ef unwaith, nis ceir ef byth yn ol.

"Nid holi dirgelion mae Iesu Mab Duw,
Ond ateb dirgelion yr oesoedd—Byw!
Ac O, ar ol bywyd y Perffaith Ddyn,
Daeth byw yn reddf bywyd i lawer un."—*Gwili.*

Os cawn yn chwerw yma'n trin,
Gan gystudd dwys a thrallod blin,
Bydd hyn o law ein tirion Dad,
Er elw a sail i ryw leshad.—*T. E.*

"A ELLI DI WRTH CHWILIO GAEL GAFAEL AR DDUW?"

(*Y Dôn yn Rhaglen Gerddorol Undeb Morganwg*, 1897.)

DY gael nis gallaf! er Dy ddyfal geisio,
Fy enaid gura'r gwagder lle'r wyt Ti;
Ar goll drwy'th faith derfynau 'rwyf yn crwydro,
A than D'anhraethol wawl ymgiliaf fi!

Dy gael nis gallaf! pan yn Dy gynteddau,
Y byddaf yn cyflwyno 'ngweddi wael;
Pan hed fy meddwl hwnt i bob terfynau,
Mae'n gorfod troi yn ol, heb fyth Dy gael!

Yn mhell uwch cyrhaedd unrhyw ddynol lygad,
Yn mhlygion mewnaf oll fy nghalon fad;
Yn ddwfn islaw dyfnderoedd ymwybyddiad,
Dy wawl ddysgleiria; yno'th gaf, O Dad!

A mwy ni'th gollaf! ynot Ti rwy'n trigo,
A'm nod yn glir, nad b'le i grwydro'r äf;
Y ddeddf sy'n dal y byd gaf i'm cyfeirio,
A'm cartref gyda Thi 'n y diwedd gaf.

T. C. U. ELIZA SCUDDER.
Chwefror 8fed, 1897.

YN mhob dyn mae unigedd; ystafell fewnol o fywyd neillduol, nad ä neb i fewn iddi ond Duw yn unig.

NODION A SYLWADAU.

——

UN o brif ddygwyddiadau y mis diweddaf oedd cyhoeddiad Cylchlythyr Ymherawdwr Russia yn gwahodd y gwledydd Ewropaidd i ystyried y dymunoldeb o leihau eu byddinoedd. Mae ei bwysigrwydd yn gynwysedig yn y ffaith fod yr egwyddor o heddwch cyffredinol wedi cael ei chydnabod gan benaeth un o fyddinoedd mwyaf nerthol y byd fel peth dymunol. Mae pob diwygiad yn gorfod myned trwy dair *stage*. Yn gyntaf, rhaid iddo gael ei bregethu gan y diwygiwr; yn yr ail *stage*, mae dynion yn barod i roddi ystyriaeth iddo, ac i gydnabod ei fod yn iawn; yn y drydedd *stage*, mae y diwygiad yn cael ei gario i weithrediad. Mae y mudiad o blaid heddwch cyffredinol, trwy lythyr y Tzar, wedi cael ei symud yn mlaen i'r ail *stage*. Dyna y cwbl. Rhaid dysgwyl llawer eto, fel mae lle i ofni, cyn y symudir y mudiad yn mlaen i'r trydydd *stage*. Ond fe ddaw bob yn dipyn.

——:o:——

YN ddiweddar, bu raid i weinidog Presbyteraidd yn Los Angelos, California, ymneillduo oherwydd rhesymau neillduol. Canlynwyd ef gan gyfran luosog o'r hen gynulleidfa, a sefydlwyd eglwys newydd. Dyma gredo yr eglwys newydd hon:—

"Credwn mewn un Duw a Thad oll, yr Hwn sydd yn oll a thrwy oll a goruwch oll.

"Credwn mewn un Arglwydd a Meistr, Iesu Grist, cenadwri yr Hwn oedd 'ceisio a chadw yr hyn oedd golledig.'

"Credwn mewn edifeirwch a maddeuant pechodau.

"Credwn mai Ysbryd Duw yw y gallu sydd yn gwneyd am gyfiawnder mewn dynion a hanes.

"Credwn yn ysbryd a geiriau yr Iesu.

"Credwn mewn calon lan ac mewn gwasanaeth cariad.

"Derbyniwn y cofnodeb o Wirionedd Dwyfol a geir yn yr Ysgrythyrau.

"Addawn rodio yn meddwl Crist, ymddiried yn Nuw, caru ein cyd-ddynion, a cheisio am gyfiawnder."

Nid oes un Undodwr, ni a gredwn, na all ddyweyd Amen i bob un o'r erthyglau uchod; eto, mae yr eglwys hon yn ystyried ei hun yn Iawnffyddol.

——:o:——

PWNC sydd yn cael mwy a mwy o sylw flwyddyn ar ol blwyddyn ydyw Ysbrydegaeth. Eto, hyd eleni, nid yw y Gymdeithas Brydeinig wedi gwneyd un sylw ohono. Y pwnc hwn oedd baich un rhan o araeth odidog Llywydd y Gymdeithas

hon yn Mryste y dydd o'r blaen. Ymddengys fod Syr William Crookes (y Llywydd) wedi gwneyd y pwnc hwn yn bwnc ymchwiliad am flynyddau lawer. Cydnabydda nad yw wedi llwyddo i gael ei lwyr foddloni yn ei ymchwiliadau; ond ymddengys ei fod yn ffyddiog y llwyddir i gael mwy o oleuni arno bob yn dipyn. Mae meddyliau goreu y gwledydd yn ystod y blynyddau diweddaf wedi bod yn edrych i fewn iddo; a thebyg, mewn canlyniad i'r anerchiad y cyfeirir ato uchod o flaen y Gymdeithas Brydeinig, y caiff fwy o sylw eto.

——:o:——

Dywed awdurdodau yr Eglwys Babaidd yn Rhufain fod rhwng 600 a 700 yn cael eu dychwelyd at Babyddiaeth yn Lloegr a Chymru yn flynyddol.

——:o:——

Mae Mr. Lloyd George, A.S., wedi bod yn ysgrifenu hanes ei fywyd yn un o bapyrau Llundain. Bydd yn syn gan ein darllenwyr yn ddiamheu ddeall mai Undodwr oedd ei dad—ysgolfeistr yn Liverpool. Bu farw pan nad oedd Lloyd ond dwy flwydd oed; ac ar ol yr amgylchiad hwn, symudodd efe a'i fam i Gymru. Ymddengys fod a wnelo Dr. Martineau âg ysgol ei dad yn rhywfodd; a dwg Mr. George dystiolaeth uchel i'r dylanwad a gafodd y gwr enwog uchod arno pan yn ieuanc.

——:o:——

Traddodwyd pregeth gan un o offeiriaid Eglwys Loegr yn ddiweddar, yn yr hon y dywedodd ei fod yn credu mewn bywyd dyfodol i anifeiliaid, ac y byddai yn well ganddo gwrdd â hwy yno na llawer o ddynion a adnabyddai. Ymddengys fod yr athrawiaeth newydd hon yn rhy gryf i'r gynulleidfa, oherwydd aeth y rhan fwyaf allan.

——:o:——

Yn ddiweddar, bu farw y Parch. Thomas Timmins, gweinidog Undodaidd, a sefydlydd Byddinoedd Trugaredd. Amcan y Gymdeithas yw dysgu ac anog y ddyledswydd o fod yn garedig i greaduriaid mudion. Yn ystod ei gysylltiad â'r Gymdeithas, teithiodd lawer yn Lloegr ac America, a bu yn foddion i sefydlu miloedd o gangenau. Bu yn llafurio am flynyddau i gael gan y Llywodraeth i wneyd hyn—dysgu y plant i fod yn dyner i greaduriaid yn rhan o'r addysg a gyfrenid yn yr ysgolion; ac yn y diwedd bu yn llwyddianus. Bydd y goffadwriaeth am dano ar gael yn hir ar gyfrif y gwaith da a wnaeth mewn cysylltiad â'r mudiad hwn. Nid oes un mudiad a mwy o'i eisieu, oherwydd mae dyn wedi camddefnyddio ei awdurdod ar yr anifeiliaid is-raddol yn fawr.

Yn ol Dr. Gomer Lewis, nid yw "gwatwareg Paine, rhyfyg Ingersoll, amheuaeth Strauss, prydferthion hudol Renan, ffug-ymresymiadau Herbert Spencer, duwinyddiaeth niwliog yr Almaen, nac Uwch-feirniadaeth gamarweiniol yr oes bresenol, wedi eu syflyd hwy (y Bedyddwyr) oddiwrth sylfaen Ysgrythyrol eu tadau." Nid yw ein hadnabyddiaeth o'r enwad yn Nghymru yn ddigon helaeth i'n galluogi i draethu barn ar y gosodiad uchod; ond, a barnu wrth eu llenyddiaeth, o'r braidd y gallai ddyweyd yr un peth am lawer o Fedyddwyr yn Lloegr. Tebyg nad yw yr awel wedi cyffwrdd â'r enwad yn Nghymru eto. Ond a ellir dyweyd hyn am enwadau ereill hefyd? Gyda llaw, sylwn fod "Uwch-feirniadaeth" i fod yn un o bynciau ymdrafodaeth yn yr Undeb Cynulleidfaol Cymreig y flwyddyn nesaf.

——:o:——

Lled gythryblus ydyw yr Eglwys Sefydledig yn y dyddiau hyn. Bernir fod nifer fawr o'i chlerigwyr â'u hwynebau yn ol tuag at yr Hen Fam—Eglwys Rufain; ac mewn llawer o eglwysi ymarferir â defodau a ystyrir yn hollol anghyson âg ysbryd ac egwyddor sylfaenol Protestaniaeth. Ond nid yw hyn i gael ei oddef heb wrthdystiad. Mae y blaid, ar ba un mae Mr. Kensit yn flaenor, yn cynyddu mewn nerth a gweithgarwch yn ddyddiol. Dymunwn rwydd hynt iddynt yn eu hymgyrch.

——:o:——

Mae yr enwadau crefyddol yn Nghymru yn dechreu teimlo y pwysigrwydd o gael gweinidogaeth ddysgedig. Yn mhob un o'r Colegau Duwinyddol mae y safon wedi codi yn ddirfawr yn ystod y blynyddau diweddaf; a dymuniad penaf awdurdodau y colegau yn awr yw anfon allan ddynion ieuanic fyddant yn gymhwys i fod yn arweinwyr y bobl. Mae hyn yn arwydd calonog iawn. Mae y cwestiwn hwn, efallai, yn cael mwy o sylw gan y Methodistiaid na chan yr enwadau ereill—er nad ydynt hwythau hefyd yn mhell ar ol. Y dydd o'r blaen, buwyd yn ystyried y mater hwn yn Nghymdeithasfa Chwarterol y Gogledd. Teimlad y Pwyllgor fu yn ei ystyried oedd, y dylid sicrhau fod gweinidogion y Cyfundeb yn gydradd, yn y man lleiaf, i aelodau y cynulleidfaoedd mewn addysg.

——:o:——

Nid yw yr amser wedi d'od eto i gael un Coleg Duwinyddol i wasanaethu yr holl enwadau yn Nghymru; ond mae y tueddiad yn amlwg yn y cyfeiriad hwn. Mae Colegau y Bedyddwyr a'r Annibynwyr yn Mangor wedi cymeryd cam pwysig yn y cyfeiriad hwn, trwy fod athrawon y ddau Goleg wedi ffurfio cynllun i gynorthwyo eu gilydd. Effaith y drefn hon yw fod yr athrawon

yn cael chwareu teg i roi mwy o sylw i'r pwnc efrydiaeth sydd dan ofal pob un, yn lle eu bod yn gorfod rhoi eu sylw i amryw bynciau. Fel y deuir i weled gymaint yn rhagorach yw y cynllun hwn na'r hen, mae barn y wlad yn sicr o addfedu yn gyflym yn ffafr un Coleg Duwinyddol i Gymru.

SYLWEDYDD.

JOHN ISHMAEL JONES.

XVI.

DYDD Iau ddaeth, a chydag ef daeth cynulliad anarferol o luosog o weinidogion a chynrychiolwyr o bob eglwys berthynai i'r Cyfundeb. Yr oedd y dref mewn cyffro. Arferai fod yn dawel, oherwydd dim ond y dosbarth mwyaf cyffredin o ddigrifwch, a'r cwmni chwareuyddol mwyaf cyffredin, byth ymwelai â'r dref; ac ni roddai y rhai yma bleser i aelodau yr eglwys am na ymwelent byth â'r fath leoedd—ond pan oddicartref. Efallai mai nid iawn dyweyd fod canoedd o bobl yn falch fod treial i gymeryd lle; ac eto, gan *fod* treial i gymeryd lle, yr oedd canoedd yn falch eu bod yn gallu myned i'w wrando. Efallai nad yw pobl yn caru gweled tai eu cymydogion yn llosgi fyny; ond os ydynt yn llosgi, y maent yn caru gweled y tân. Felly parotöai pawb i fod yn bresenol, i gael gweled y difyrwch arddangosid yn rhydd.

Cafodd Mr. Jones ymgom ac ymadawiad poenus â Madge. Gwyddai oddiwrth ei gwyneb fod y nos wedi ei dreulio mewn wylo yn fwy nag mewn cwsg. Ond yr oedd yn awr yn dawel gyda thawelwch un mewn carchar yn barod erbyn y dienyddiad anocheladwy. Nid Ishmael yn unig oedd ar ei dreial; yr oedd dedfryd i gael ei phasio ar ei thynged hithau; ac yn barod gwelai ei hunan yn unig, gyda'r oll oedd yn garu edrych arno fel y tecaf a'r melusaf yn y dyfodol wedi ei ddystrywio a'i droi yn anghyfanedd.

Eisteddasant yn nghyd am haner awr mewn dystawrwydd, gan fyfyrio ar eu meddyliau eu hunain; yna cododd y dagrau yn llygaid Madge, a llefai allan,—

"O, Ishmael, Ishmael! Ai nid oes ffordd allan hyd yn nod yn awr?"

"Nid oes genyf ond yn unig gymeryd y cam nesaf, fy anwyl Madge, a'r hyn a ganlyn, Duw yn unig a wyr."

Ac yn awr am foment collodd bob llywodraeth arni ei hun, ac allan o ddygnedd ei chariad, ymbiliodd, dadleuodd, a braidd na ddanododd iddo ei fod wedi ei ddwyn yn wirfoddol arnynt. Yna erfyniodd am faddeuant, a dywedodd:

"Nis gwn beth wyf yn ddyweyd. 'Rwyf yn greulon, fel pe na bai yn galed i chwi yn gystal ag i minau!"

Cysurodd hi goreu y gallai, ac yna ymadawsant. Unwaith eto yr oedd i'w gweled, ac wed'yn—beth wed'yn, nis gallai feiddio meddwl am hyny.

Daeth yr amser i'r Cynadledd i ddechreu. Yr oedd yr eglwys yn llawn. Cymerodd y llywydd y gadair, ac yr oedd pawb yn barod. Dewiswyd Mr. Smiley, ar ran yr eglwys, i osod ger bron y cyhuddiadau yn erbyn eu gweinidog. Ar ol cael ei alw, cododd Mr. Smiley, a dywedodd:—

"Mr. Llywydd a boneddigion y gynadledd, maddeuwch i mi, os allan o lawnder fy nghalon, y dywedaf un gair personol cyn darllen y papyr yma. Cerais ein gweinidog fel brawd." (Fan yma yr arosodd, tynodd allan yn ofalus ei napcyn, a sychodd ei lygaid yn dyner). "Esgusodwch fi am wthio fy nheimladau personol ar y gynulleidfa; ond nis gwyddoch mor galed yw hi i dystiolaethu yn erbyn eich gweinidog eich hun. Do, cerais ef fel brawd, a dymunwn pe bai wedi syrthio i wefusau ereill na'r eiddof fi i siarad yr hyn ag mae dyledswydd galed yn orfodi i mi lefaru. Yn awr, y mae yn rhaid i mi hysbysu yn mlaen llaw, fod llacrwydd Duwinyddol yn ddrwg ddigon, ydyw yn ddrwg ddigon; ond beth ddywedir pan mae llacrwydd yn yr Efengyl yn dwyn llacrwydd mewn cymeriad? Ië," ail-adroddai pan welodd y syndod greodd ei eiriau olaf, "llacrwydd mewn bywyd, fy mrodyr; Ond, gadawer i hyny basio am y presenol, fy mrodyr; y mae yn rhaid iddo dd'od ger bron yn ei le ei hun. Ni gawn wrandaw ar un peth ar y tro; a bydd y naill neu y llall yn ddigon i dristâu ein calonau oll; ïe, tristâu ein calonau oll, fy mrodyr. Esgusodwch y dagrau yma, ond y mae yn rhaid i natur gael ei ffordd."

"O! 'r hen fytheuad," ysgyrnygai Dai Sosin dan ei ddanedd. "Mi wn i fod e'n dyweyd celwydd pan yn pardduo caritor Mr. Jones."

Ond yn anwybodus o sylwadau fel yma, yn mlaen yr aethai Mr. Smiley, gan chwyddo mewn pwysigrwydd duwiol.

"Yn gyntaf, ynte," Mr. Llywydd.—Dyledswydd boenus i mi yw dwyn cyhuddiadau yn erbyn ei olygiadau Duwinyddol. Caniataer i mi ddarllen y papyr hwn.

"'Gan fod y Parch. John Ishmael Jones yn weinidog yr eglwys Iawnffyddol, aelod o'r gymdeithas hon, a bugail yr eglwys yma, wedi bod yn anffyddlon i'w swydd fel un yn dal ffydd bur yr Efengyl, y mae yn arfer defnyddio iaith amheus mewn perthynas âg athrawiaethau pwysig. Rhydd ei udgorn sain anhynod. Er engraifft, mewn amryw bregethau, mewn cyfarfodydd gweddi, ac mewn traethodau ddarllenwyd ganddo o flaen amryw gymdeithasau, y mae wedi rhoddi datganiad i heresi, neu wedi gwrthod dyweyd dim mewn perthynas i'r athrawiaethau canlynol—hyny yw, cwymp dyn yn Adda, ac o ganlyniad eu condemniad cyfiawn i'r holl drueni ag mae yr hil ddynol wedi ddyoddef; yr athrawiaeth o lygredd hollol y natur ddynol; yr

Iawn drwy waed aberth Crist; etholedigaeth drwy ras; anffaeledigrwydd y Beibl; a chosbedigaeth dragywyddol y drygionus.

"'Yn ail.—Y mae yn wybyddus ei fod yn cyfeillachu â'r fath ddynion a Tom Wynne a Dai Sosin ar y bryn; a phan ddywedant eu bod yn caru ei athrawiaeth, am ei bod yn wahanol i'r hen ffurf, yn lle eu ceryddu, mae yn derbyn eu cymeradwyaeth.

"'Yn drydydd.—Mewn traethawd a ddarllenodd o flaen y gymdeithas yn Trerhaf, amlygodd ei gred yn nysgeidiaeth echryslawn Darwin a gwyddor diweddar; ac yn mhellach, mewn dadl, amddiffynodd gymeriad Theodore Parker, yr archinffidel.

"'Yn bedwerydd.—Yn angladd y ddiweddar Mrs. Grey, infffidel adnabyddus, yr hon drwy dwyll enillodd galonau lawer o'n pobl ieuainc oddiwrth y gwirionedd, beiddiodd ei dal i fyny fel esiampl, a gwnaeth rai cyfeiriadau celyd at y rhai sydd yn dal wrth 'iachawdwriaeth drwy ffydd,' a rhai nad ydynt, fel hi, yn ymddiried mewn gweithredoedd.

"'Yn bumed.—Y mae wedi pregethu yn erbyn Rhagluniaeth neillduol Duw, ac yn dyweyd mai achosion naturiol yw y cyfan. Pan yn cyfeirio at dân gymerodd le yn y dref nesaf, gwadai fod yna un prawf o farn Duw; dywedai ei fod yn meddwl fod y fuwch a giciodd y ganwyll â mwy i wneyd â'r mater nag oedd gan bechodau y bobl. Ac yn yr un fath, dywed fod clefydau yn cyfodi o ddiffyg gofal iechydol yn hytrach na digofaint Duw.

"Dyna, fy mrodyr, y mae hyn yn ddigon. Yr oeddem wedi ysgrifenu allan lawer rhagor; ond maent yn ddiangenrhaid. Gosodwn y cyhuddiad hwn ger eich bron i'ch hystyriaeth. Ni charwn godi rhagfarn yn mlaen llaw; ac eto teg yw hysbysu fod mater yr ail gyhuddiad yn llawer mwy difrifol, mor bell ag mae ei gymeriad yn myned, er fod yr un yma yn cyffwrdd lawer mwy agos â phurdeb yr Efengyl. Gall un fod yn bechadur mawr—fel yr ofnwyf, frodyr, ei fod ef—ac eto gael maddeuant ac achubiaeth yn rhinwedd gwaed yr Iawn; ond os y 'seiliau a ddinystrir, pa beth a wna y cyfiawn?'"

Ac eisteddodd i lawr, fel yn teimlo yn sicr fod y fath adnod yn siwr o gyffwrdd â chalonau pawb.

Yna canlynodd rhai o weinidogion y cylch âg awgrymiadau, ut yr oedd Mr. Jones wedi dwyn gwarth arnynt drwy y swydd g oedd yn ddal. Yr oedd ei ddylanwad dros y gymydogaeth yn nffodus. Ac yr oedd hyn yn amlwg, pan y byddai Mr. Jones i iarad neu bregethu yn y gwahanol eglwysi, yr oedd amryw bechaduriaid i'w gweled yn y cysegr nad oeddynt yn bresenol ar un amgylchiad arall: daethent allan yn llawn nerth, a dywedent yr aethent i glywed y fath bregethu synwyrol a hyny bob Sul 'r flwyddyn. Yr oedd hyn oll yn niwed mawr i Air pur y bywyd el y cyhoeddent hwy ef.

"Ac nid ydyw i'w ddyoddef," fy mrodyr," dywedai un honynt. "A adawn i ddynion anianol gael eu harwain ar yfeiliorn gan eu rhesymau anianol, a dyweyd fod yr Efengyl

yn gommon sens? Nid common sens yw, fy mrodyr; dirgelwch yw—dirgelwch duwioldeb gwybyddus i'r etholedig yn unig."

"Ië," meddai Dai Sosin, "felly mae. Mi glywais i hwna yn pregethu unwaith, a siwr ddigon, dirgelwch mowr odd hi; dallwn i neyd na phen na chynffon iddi."

Yn nesaf, cododd gweinidog Masarn, un o'r rhai anogai Mr. Jones i sefyll y treial, a dywedodd:—

"Mr. Llywydd a chyd-Gristionogion,—Y mae bellach yn llawn bryd i air, o leiaf, gael ei ddyweyd ar yr ochr arall. Y mae llawer ohonom ni, gweinidogion, yn y Gymdeithas hon yn teimlo ein bod ar ein prawf yn gystal a Mr. Jones. Os mae ei le ef yw tuallan i'r weinidogaeth, yna oes genym ninau ddim hawl aros. Yr ydym wedi ei gymhell i sefyll y treial hwn, er mwyn cael dwyn y mater i brawf. Yr ydym yn barhaus yn cael ein cyhuddo gan y gwyddonwyr, ac yn y wasg, am nad oes rhyddid barn yn ein pwlpudau. Arferaf fy hun wadu y cyfryw gyhuddiad. Ac eto, os condemnir Mr. Jones heddyw, ceuir fy ngenau, a bydd raid i minau gyfaddef fod y cyhuddiad yn wir, mor bell ag mae a fyno'r Gymdeithas hon â'r pwnc.

"Beth, gyfeillion, mae Mr. Jones wedi wneyd? Y mae wedi pregethu Efengyl cymeriad a bywyd. A oes yma rywun a ddywed nad oes eisieu pregethu y pethau yma? Yna yn wir bydd cyhuddiad yr ystryd yn cael ei gyfiawnhau, fod moesoldeb yr Eglwys yn îs na'r farchnad. Y mae wedi myfyrio cwestiynau diweddar y byd yn ngoleuni gwyddor a beirniadaeth gwyddoreg. A ydym yn barod i gyfaddef ein bod yn anfoddlon chwilio seiliau ein ffydd? Y banc ag sydd yn anfoddlon edrych i'w gyfrifon sydd yn un y gwna pobl onest a synwyrol dynu ohono eu harian.

"Mae arnaf fi, fel un, gywilydd o'r cwrs gymera cymaint o'n heglwysi a'n gweinidogion. A ydyw'r seddau yn hawlio eu bod wedi myfyrio a deall y pynciau mawrion yma? Mae'r syniad yn wrthun. Ac eto, yn eu hanwybodaeth, ymgymerant i benderfynu beth mae'r gweinidog i gyhoeddi fel gwirionedd. Gosodwch wobr ar anwybodaeth ac anonestrwydd eich gweinidogion. Gwnewch hi yn bechod i fyfyrio a darllen unrhyw beth newydd; a chredwch ei bod yn rhinwedd ynddynt os cuddiant i fyny neu os gwrthodant lefaru unrhyw air newydd Duw a ddaw atynt. Gwnewch fara a chaws eu gwragedd a'u plant i ymddibynu ar eu bod yn adleisio eich meddyliau llwm eich hunain, yn hytrach na'u gwahodd i fyned yn y blaen ac i fod yn arweinwyr i chwi. A ydych yn meddwl fod Duw wedi marw, neu nad oes ganddo ffordd i fyned i mewn i galonau dynol heddyw?

"Os na chaniateir i weinidogion ein heglwysi i fyfyrio drwy holl fydysawd Duw, a chymeryd Ei wirionedd pa le bynag y cânt ef fel eu hetifeddiaeth gyfiawn fel Ei blant, bydd llawer ohonom yn falch ei gael allan; darganfyddwn ffyrdd o wneuthur i ni ein hunain lwyfanau lle y *cawn* siarad, a lle y cawn ddynion a benywod rhydd, dewr, a deallus i wrando arnom."

Canlynodd banllefau o gymeradwyaeth yr hèr ddewr yma.

Ond pan alwyd am bleidleisio, cafwyd fod penwendid a rhagfarn—fel y mae yn gyffredin—wedi cael mwyafrif, a chondemniwyd Mr. Jones yn heretic drwy fwyafrif o dair pleidlais gan aelodau y Gynadledd.

(*I'w barhau.*)

Q. T.

CYFARFODYDD SEFYDLU YN Y RHONDDA.

AR y Sul a'r Llun, y 4ydd a'r 5ed o Fedi, cynaliwyd cyfres o gyfarfodydd i'r amcan o sefydlu Mr. David Rees, Aberaman, yn weinidog i ddwy eglwys Undodaidd y Rhondda, sef y Pentre a Chlydach Vale. Arfaethwyd cynal y cyfarfodydd hyn ar ddechreu Awst; ond yn herwydd amgylchiadau nad oedd genym lywodraeth arnynt, gohiriwyd hwynt hyd yr amser uchod. Un o'r cyfryw amgylchiadau oedd y streic—*that game of industrial suicide*—sydd yn ffurfio penod mor brudd yn, ac yn adlewyrchu mor lleied o gredyd ar, ffynonellau heddychol gwareiddiad chwyddedig y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Pa fodd bynag, y mae hi heddyw yn mhlith y pethau a fu, ond y mae lle i ofni na ellir cyfrif ei heffeithiau felly am lawer i flwyddyn gron.

Ar y Sul, cynaliwyd y cyfarfodydd yn Nghlydach Vale. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. John Davies, Alltyplaca. Methodd Mr. J. H. Davies gyflawni ei addewid. Yn ei lythyrau rhagarweiniol yn nghyfarfod nos Sul, dywedodd Mr. Davies, Alltyplaca, os oedd hi yn rhinwedd i wneyd addewid i fod mewn rhyw fan, ei bod hi yn llawn cymaint o rinwedd i gyflawni yr addewid; ac er fod ganddo syniad uchel am ragoriaethau hysglaer a gwasanaethgarwch cyffredinol ei gyfaill Hathren, mai nid ei absenoldeb y nos Sul hono oedd un ohonynt. Er fod y gwron o Alltyplaca, fel pawb ereill, yn heneiddio gyda threigliad y blynyddoedd, edrydd ei 'stori heddyw mor flasus ag erioed; ac nid wyf yn meddwl fod ei wasanaeth yn fwy derbyniol yn un man nag yn y Cwm y dywedai Telynog mor gellweirus ei fod yn gul, domog, a gorgreigiog, a chulach na cham ceiliog."

Ar y Llun, cynaliwyd y cyfarfodydd yn y Pentre. Daeth amryw o weinidogion yno, a da oedd genym eu gweled yn teimlo ymaint o ddyddordeb yn y mudiad ag sydd erbyn hyn wedi gwneyd Mr. David Rees yn un o Barchedigion yr enwad. Un o *incidents* cyntaf y dydd hwn ydoedd eglurhad y Parch. Hathren Davies am ei absenoldeb y Sul blaenorol. Afreidiol ydyw dyweyd fod yr eglurhad yn berffaith foddhaol.

Traddodwyd y siars i'r gweinidog gan y Parchedig o Alltyplaca, ac i'r eglwys gan y Parch. Hathren Davies. Yr oedd y siars i'r weinidog yn ddyddorol mewn rhagor nag un ystyr. Adwaenai

Mr. Davies Mr. Rees er yn blentyn, a chafodd yr anrhydedd o gyfranu iddo elfenau cyntaf gwybodaeth. Ond ymsefydlodd Mr. Rees gyda'r enwadau Iawnffyddol, a bu gyda hwynt yn aelod ffyddlon hyd tua blwyddyn yn ol, pan benderfynodd fwrw ei goelbren gyda'r Undodiaid. Ac wele Mr. Davies yn ei roesawu eto ar y trothwy i gyflawn waith y weinidogaeth. O'r braidd y mae yn angenrheidiol dyweyd fod y croesaw a roddai ef iddo yn un calonogol iawn, ac yn gyfryw ag oedd yn gosod allan Mr. Rees mewn gwedd hynod o ffafriol a dymunol. Llongyfarchai Mr. Davies y ddwy ddeadell fechan ar eu caffaeliad o wasanaeth dyn ieuanc yn meddu ar gymeriad mor ddianaf, a rhagolygon mor ddysglaer. Yna aeth yn mlaen i nodi allan nodweddion y pregethwr, a'r elfenau hyny yn ei gymeriad ag sydd yn hanfodol i'w lwyddiant fel gweinidog. Yna cawsom bregeth ragorol gan Mr. Hathren Davies ar waith Eglwys y Dyfodol.

Yn yr hwyr, cafwyd cyfarfod cynes a brwdfrydig iawn. Dechreuodd Mr. Jenkins, Dowlais, y gwasanaeth yn y modd arferol, a chawsom ddwy bregeth yn iawn, un gan Mr. Jenkins, o Gellionen, yn Gymraeg, ac un gan Mr. Jenkin Thomas, Aberdar, yn Saesoneg.

Wele Mr. Rees bellach wedi ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth, ac hwyrach y caniateir i mi yn y fan hon i ddyweyd gair neu ddau yn ychwanegol at yr uchod. Beth bynag fydd datguddiedigaethau y dyfodol gyda golwg ar y Parch. David Rees, "we will not forestall the decrees of father Time," fe ellir dyweyd hyn gyda sicrwydd hollol, na chychwynodd un gweinidog erioed gyda mwy o unfrydedd yr eglwysi y mae bellach yn weinidog iddynt. Nid ydym yn gwybod am un ag oedd yn wrthwynebol i Mr. Rees ddyfod yn weinidog i ni. Yr oedd y gwahoddiad a gafodd yn un llwyr, cyflawn, ac unfryd. Yn nesaf, yr oeddym yn ymwybodol nad oedd Mr. Rees wedi cael manteision addysg athrofaol. Yr ydym yn dygwydd bod yn perthyn i'r dosbarth hyny ag sydd yn credu mewn rhoddi yr addysg oreu i weinidogion yr Efengyl. Nis oes un man, dybiwn i, lle y gellir dyweyd fod coethder a diwylliant meddyliol yn ei *suitio* yn well na'r pwlpud. Addefwn yn rhwydd mai amcan gyrfa athrofaol ydyw rhoddi i lawr seiliau rhyddfrydig o addysg; ond na ato Duw i ni dybied fod hyny yn anmhosibl yn un man ond yn y Coleg. "People," ebai Syr John Lubbock, "can generally find time for what they choose to do; for it is not really the time, but the will that is wanting." Dyma yr allwedd i'r sefyllfa. Lle bynag y byddo yr ewyllys am unrhyw beth yn gadarn a sefydlog, nid oes dim saif o'i blaen—y mae pobpeth arall yn is-wasanaethgar iddi hi. Nis gall un coleg wneyd mwy. Dyma ein hunig esgusawd dros roddi galwad i Mr. Rees i weinidogaethu i ni; yr ydym yn argyhoeddedig ei fod yn meddu ar y cymhwysderau hyny ag sydd yn hanfodol i'r gwir bregethwr, a chyda llaw, ei fod yn teimlo dyddordeb brwdfrydig yn ei alwedigaeth urddasol. Duw fyddo yn nerth iddo i fyw y bywyd hwnw a rydd nerth a dylanwad i'w leferydd.

ANERCHIAD

I Gymanfa yr Undodiaid yn Abertawe, 1898.

ARDDERCHOG Gymanfa! mawreddog ei bri.
Mae rhyw urddasolrwydd yn rhwym wrthi hi;
Mae natur yn gwenu, mae'r tymhor yn braf,
Mae pobpeth yn canu yn nghanol yr haf;
Wel, gweddus i ninau'r ddynoliaeth yn nghyd,
Yw dyrchu ein moliant i'n Crewr i gyd.

Hawddamor Gymanfa!—rhagorol yn wir,
Arwyddion o gynydd a welir trwy'n tir;
Mae'n glod i'n harweinydd, mae'n ddyn lon'd ei swydd,
Ei ymdrech gwastadol goronir â llwydd;
Wrth glywed y corau yn canu yn nghyd,
Rhyw naws o sancteiddrwydd a'n lleinw i gyd.

Gymanfa ragorol! mae'r cynllun yn ddoeth,
Mae'n gwneyd ein caniadaeth yn llawer mwy coeth;
Mae pawb ar eu goreu mewn ysbryd a hwyl,
Er llanw'n briodol eu lle yn yr wyl;
Prif nôd y Gymanfa, a'n hamcan wrth fyw,
Fo rhoddi'r gogoniant a'r moliant i Dduw.

Cathelyd. LEWIS HOPKIN.

LLWYBR DYLEDSWYDD.

BUAIS yn meddwl y dydd o'r blaen mewn perthynas i ddau gwrs gwahanol oedd yn bosibl i mi gymeryd—Ei fod yn well gwneuthur y camgymeriad mwyaf wrth ganlyn yn ffyddlawn eich drychfeddwl penaf o fywyd, na'ch bod yn cael y fantais oreu wrth fyned yn wrthwynebol i'r drychfeddwl hwnw.

Meddyliwn fod hyny yn well gogyfer â gwasanaethgarwch a hapusrwydd y dyn yn y byd hwn, ac yn y byd mawr tragywyddol; fod canlyn yn ffyddlawn eich drychfeddwl penaf o fywyd yn dâl helaeth ynddo ef ei hun, drwy fod y dyn yn ffyddlawn i'w gydwybod, drwy ei fod yn canlyn ac yn ymgeisio am y prif ddaioni, chwedl yr athronwyr; ac o'r tu arall, tra pa mor lwyddianus bynag y gall dyn fod yn y byd hwn, os bydd yn rhedeg yn groes

i'r hyn a gred a yn nyfnder ei galon a ddylai redeg tuag ato, gwna y dyn yna fod dloni ar rywbeth islaw y da penaf a'r perffeithrwydd mwyaf.

Addefaf mai caled iawn ydyw canlyn allan y drychfeddwl uchaf o fywyd ar waethaf yr holl rwystrau sydd ar ein ffordd, ond sicr ydyw mai yn y cyfeiriad yma y gorphwys iachawdwriaeth benaf dyn yn y byd hwn, ac yn y byd mawr tragywyddol. Wrth syrthio yn îs na'r drychfeddwl uchaf, ni wnawn ond diraddio ein natur, eithr wrth gadw i fyny ato ar waethaf pob peth, dengys y natur ddynol ardderchogrwydd dihafal.

Yn Nghrist y cawn yr esiampl fwyaf bendigedig o'r ymlyniad di-ildio yma wrth bwrpas uchaf bywyd; nid oedd anniolchgarwch ei gydwladwyr, nid oedd erledigaeth yr arweinwyr Iuddewig, nid oedd tlodi ei sefyllfa yn alluog i symud mymryn ohono rhag nôd bendigedig Ei fywyd ar y llawr. Diamheu fod diffoddiad llawer o ser dysglaer yn yr Eglwys, yn ogystal ag yn y byd, wedi dygwydd oherwydd nad oedd ganddynt ddigon o benderfyniad meddwl, digon o ymlyniad a dyfalbarhad i lynu wrth eu drychfeddwl penaf hyd nes iddynt allu gwaeddi buddugoliaeth ar ben draw y daith.

Ystyriaf fod y methiant mwyaf dychrynllyd mewn ymgymeriad o'r radd uchaf; ac mewn anturiaethau o'r mwyaf enfawr, yn fwy o les i'r dyn yn yr oll ohono yma a draw, na chael y llwyddiant mwyaf trylwyr mewn cylch bychan, cyffredin, yr hwn nid yw yn gofyn unrhyw dalent, nag ymroddiad, na ffydd neilldual i ffynu ynddo.

Gan hyny, ddynion ieuainc, byddwch yn ffyddlon i'ch drychfeddwl uchaf a phenaf o fywyd, oblegid drwy hyny, teimlaf yn hollol argyhoeddedig y byddwch o well caffaeliad i'r byd, ac y teimlwch yn llawer mwy boddlon i farw, na phe baech wedi cael y llwyddiant mwyaf mewn cylch a groesai ddewis lwybr eich bywyd.

Wrth gwrs, mae'n gofyn fod eich drychfeddwl o fywyd wedi ei ffurfio ar y safonau goreu, ar Grist, ar Paul, ar y Beibl, ar athroniaeth Plato ac Aristotle, ar bob esiampl o eiddo dyn da mewn hen amseroedd, yn ogystal a diweddar. Tynwch eich goleuni o bob man y galloch; ymddadleuwch â chwi eich hun pa beth ydyw y prif dda, a'r prif nod i ymgeisio ati mewn bywyd; ond wedi cael eich hargyhoeddi o'r ffordd dda, o'ch cenadaeth mewn bywyd, glynwch wrthi fel y *limpet* wrth y graig; nid wyf yn feddwl fel ag i wneyd cam â neb arall, ond peidiwch gadael i ddiflasdod, peidiwch gadael i oferedd, peidiwch gadael i ddiogi, peidiwch gadael ond i rwystrau anorfod i'ch lluddias i gorffoli eich breuddwyd mewn ffaith; a chofiwch fod y *methiant mwyaf* wrth ganlyn y ddyledswydd a'r drychfeddwl penaf yn ddeng mwy ardderchog na'r *llwyddiant goraf* yn yr hyn a groesa ddrychfeddwl eich bywyd.

Caerdydd. D. F. D.

MANION AC HANESION.

ABERTAWE.—Deallwn fod y Parch. T. Robinson wedi rhoddi fyny y weinidogaeth yn y lle hwn.

GAIR I'R UNDODIAID.—Pan y temtir chwi i aros gartref o dŷ Dduw, gofynwch i chwi eich hun yr un cwestiwn hwn, "Beth pe bai pob aelod yn gwneuthur fel yr wyf fi ar fedr gwneuthur—beth wed'yn? Capel gwag, wrth gwrs." Pan demtir chwi i leihau eich cyfraniadau, gofynwch y cwestiwn hwn, "Beth pe byddai'r holl aelodau yn gwneuthur yr un peth? Beth wed'yn?" A ydyw yr achos yn werth ei gynal yn eich golwg?—*O. L.*

DOWLAIS.—Cynaliodd yr Ysgol Sul yma ei *Picnic* flynyddol eleni yn Nhalybont, ar yr 28ain o Orphenaf, ac fe gafwyd diwrnod ardderchog. Dymuniad pawb oedd am un o'r fath eto yn fuan. Dymunwn ddyweyd fod ein parchus weinidog Mr. Jenkins, wedi cael y fraint o dderbyn pedwar o aelodau newydd y Sul diweddaf, ac y mae ef wedi cael addewid am bedwar arall y mis nesaf. Yr ydym yn credu fod llewyrch yn dechreu gwawrio yn awr o'r newydd.

ABERDAR.—Dydd Sul, Medi 18fed, cynaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch am y cynhauaf yn yr Hen Dŷ Cwrdd. Pregethwyd i dyrfaoedd lluosog gan y Parchn. J. Hathren Davies a Promotho Loll Sen. Brodor o India yw Mr. Sen, yn perthyn i'r mudiad rhyddfrydig hwnw a elwir "Bramo Somaj," ac wedi bod yn y wlad hon yn treulio dwy flynedd yn Mhrifathrofa Rhydychain. Mae yn bregethwr gwir alluog, ac yn bleser i wrando arno. Areithiodd nos Lun ar y grefydd a broffesa. Yr oedd y capel wedi ei addurno yn brydferth â phob math o ffrwythau.

MUDIAD NEWYDD.—Y mae Undeb Gweinidogion cylchoedd Merthyr ac Aberdar, wedi tynu allan gynllun o waith ar gyfer misoedd y gauaf. Cyfarfu yr Undeb yn ddiweddar yn Aberdar, a chytunwyd ar y rhagdrefn ganlynol o destynau:—"Duw ein Tad," y Parch. R. J. Jones, M.A.; "Iesu ein Harweinydd," y Parch. D. J. Williams; "Golwg newydd ar y Beibl," Dr. Griffiths; "Yr Ysbryd Glan ac Ysbrydoliaeth," y Parch. Jenkyn Thomas; "Sylfaen Iachawdwriaeth," y Parch. David Rees; "Crefydd a Duwinyddiaeth," y Parch. J. E. Jenkins; "Nef ac Uffern," y Parch. Hathren Davies. Dechreuir ar y gylchdaith Tachwedd 20fed.

Y CWRDD CHWARTEROL.—Cynelir yn Mhantdefaid, Ceredigion, ar y dyddiau Mercher ac Iau, y 26ain a'r 27ain o Hydref. Bydd y cwrdd yn achlysur agoriad y capel newydd eang a phrydferth sydd wedi ei adeiladu ar yr hen sylfeini. Bydd gwasanaeth nos Fercher am 6 o'r gloch, a dydd Iau am 10.30, 2, a 6 o'r gloch. Pregethir yn y boreu gan y Parch. Jenkin Thomas, Aberdar. Cyferfydd y Pwyllgor boreu dydd Iau am 9.30 o'r gloch. Gwneir casgliadau yn mhob gwasanaeth at y Drysorfa Adeiladu. Anfonir cerbydau i orsaf Llandysul i gyfarfod â'r trên sydd yn dyfod i mewn oddeutu 2.30 o'r gloch prydnawn ddydd Mercher. Estyna yr eglwys, y gweinidog, a'r cynweinidog, y croesaw gwresocaf i weinidogion ac i bawb ereill, ar yr adeg bwysig yma yn hanes yr achos yn Mhantdefaid.—*W. James, Ysgrifenydd y Gymdeithas.*

CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.—Cynaliwyd pwyllgor blynyddol y Gymanfa uchod yn Nghapelybryn, dydd Sul, Awst 28ain, pryd yr oedd yn bresenol gynrychiolwyr o'r oll o'r capeli yn y sir. Dewiswyd y Cadben Davies, Rhydowenfach, i'r gadair. Penderfynwyd fod y Gymanfa nesaf i gael ei chynal yn Llanbedr, ar y dydd Mercher cyntaf yn Mehefin, 1899, ac fod y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, i fod yn llywydd yn y boreu, a Mr. Saunders Davies, Felinfach, yn y prydnawn. Dewiswyd hymnau a thônau pwrpasol, a phenodwyd Mr. Thomas Davies, arweinydd y gân yn Nghapelybryn, yn arweinydd ar y Gymanfa. Penderfynwyd hefyd i gynal Cymanfa ar wahan i'r plant ar yr un dydd, ac i roi anogaeth i bawb, yn enwedig y plant, i fyfyrio Nodiant y Tonic Sol-ffa, trwy

roddi tystysgrifau i'r ymgeiswyr llwyddianus. Etholwyd yr oll o'r hen swyddogion am y flwyddyn nesaf eto, a therfynwyd y cyfarfod trwy roddi pleidlais o ddiolchgarwch i'r cadeirydd am lywyddu.

PRIODASAU.

THOMAS-SAMUEL.—Medi 13eg, yn Nghapel y Methodistiaid Seisonig, Roath, Caerdydd, gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar. yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Mr. Phillips, brawd-yn-nghyfraith i'r briodasferch, y Parch. Jenkyn Thomas, gweinidog yr Undodiaid yn Highland Place, Aberdar, a Mrs. Mary Samuel, Aberdar.

JAMES-THOMAS.—Dydd Mercher, Medi 7fed, yn nghapel Llwynrhydowen, gan y Parch. William James, B.A., Y.H., yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. S. H. Street, B.A., priodwyd Sydney Price James, M.B., I.M.S., mab ieuengaf T. E. James, Ysw., Casnewydd, sir Fynwy, â Lisa, pedwaredd ferch y diweddar Barch. Wm. Thomas, M.A. (Gwilym Marles.)

MARWGOFION.

AWST 24ain, yn 47 mlwydd oed, Mary Davies, Neuaddisaf, Pantdefaid. Cafodd gystudd caled, ond dyoddefodd y cyfan yn siriol. Bu farw fel y bu fyw, yn dawel a dystaw. Y dydd Gwener canlynol, gosodwyd yr hyn oedd farwol ohoni i orwedd yn nghladdfa Pantdefaid, lle yr oedd priod a phlant wedi eu blaenu. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. T. Thomas, Y.H., a T. Arthur Thomas. Y Sul dilynol, traddodwyd y bregeth angladdol yn Mhantdefald gan y gweinidog.

MEDI 1af, yn dra disymwth, yn 49 mlwydd oed, Mr. Noah Williams, brawd i Mr. Lewis Noah Williams, o'r Cambrian Lamp Works, Aberdar, ac ail fab i'r diweddar lenor adnabyddus, y Carw Coch. Cynorthwywr meddygol (*medical dispenser*) oedd wrth ei alwedigaeth, ac yr oedd yn barchus iawn gan bawb. Dydd Llun, cyn i'r angladd gychwyn o dŷ ei chwaer, darllenwyd a gweddïwyd gan y Parch. Jenkin Thomas. Claddwyd yn mynwent eglwys St. Ffagans, y Ficer Evan Bevan yn gwasanaethu, gyda chenad caredig yr hwn, ac ar gais y teulu, traddodwyd anerchiad ar làn y bedd gan y Parch. R. J. Jones, M.A.

MEDI 13eg, ar ol cyrhaedd yr oedran teg o 89 mlwydd oed, bu farw Mrs. Elizabeth James, priod y diweddar Mr. John James, gynt o Camnantfach, a mam y Parch. William James, B.A., Y.H., Brynhyfryd, Llandysul. Nid yn aml y cyfarfyddir â neb wedi eu bendithio mor helaeth mewn cyfansoddiad a blynyddoedd ag y bendithiwyd y trancedig, a defnyddiwyd y bywyd hir ganddi mewn gwasanaeth caredig a didwrw; yn briod hawddgar, mam ofalus, ac yn awyddus am wneuthur da i bawb. Hyfryd yw gweled bywyd llawn dyddiau fel yma yn syrthio fel ffrwyth addfed oddiar y pren. "Siomedig yw ffafr, ac ofer yw tegwch; ond benyw yn ofni yr Arglwydd, hi a gaiff glod." Dydd Gwener, yr 16eg, cludwyd ei gweddillion i Lanfihangel-ar-arth, lle y gosodwyd yr hyn oedd farwol ohoni i orwedd yn medd ei phriod, yr hwn a oroesodd ryw saith mlynedd. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. Thomas Thomas, Y.H.; John Davies, Alltyplaca; ac Arthur Thomas; a phregethwyd ar ddymuniad yr ymadawedig gan y Parch. R. C. Jones Llanbedr.

Joseph Williams Argraffydd, Swyddfa' "Tyst," Glebeland, Merthyr.